OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 2755 (Cy.266)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) (Dirymu) 2003

Wedi'u gwneud - -	*29 Hydref 2003*
Yn dod i rym - -	*30 Hydref 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16(1)(a), (e) ac (f), 18(1)(c), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**), ac wedi parchu yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1. Ar gyfer y Rheoliadau hyn —

(a) eu henw fydd Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) (Diddymu) 2003;

(b) deuant i rym ar 30 Hydref 2003;

(c) byddant yn gymwys i Gymru yn unig.

Dirymu

2. Drwy hyn dirymir Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru)(**3**) 2002.

(**1**) 1990 p.16.

(**2**) Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, o dan y darpariaethay hyn, bellach yn arferadwy mewn perthynas â Chymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir ynghyd ag adran 40(3) of Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (p.16).

(**3**) O.S.2002/3157 (Cy 293).